nofitstate circus

Hysbysiad am Gau'r Ffordd, dydd Sadwrn 2 Medi

Gŵyl Stryd Clifton

Map ar gyfer Cau'r Ffordd

COCH: Pan fydd y ffordd ar gau, rhwng 11am a 12.30pm dydd Sadwrn 2 Medi, bydd yn effeithio ar yr ardal hon.
GWYRDD: Ni fydd y trefniadau'n effeithio ar yr ardal hon a bydd modd mynd a dod.



NoFit State, Four Elms Road, Cardiff, CF24 1LE, Wales
+44 (0)2920 221330
www.nofitstate.org
Registered Charity Number 1102850
Registered Company Number 3180348

Annwyl Drigolion Adamsdown,

Hysbysiad am Gau'r Ffordd
Stryd Clifton
Dydd Sadwrn 2 Medi
Cau'r Ffordd 11am - 12.30pm

Ar ôl llwyddiant Gŵyl Stryd Clifton yr haf diwethaf, mae partneriaeth gymunedol 'Milltir Sgwâr' yn eich gwahodd i ymuno â ni mewn digwyddiad cymunedol awyr-agored di-dâl – picnic mawr – o'r enw **Gwledd Parc Feast** ddydd Sadwrn 2 Medi yng Nghaeau Anderson, 12.30-4.30 pm.

Bydd gorymdaith ar hyd Stryd Clifton (o Gold Street) **i Gaeau Anderson** yn gadael am 12pm.

Mae NoFit State wedi gwneud cais i'r Cyngor i gau rhannau o Stryd Clifton ar y diwrnod fel y gall pobl gyfarfod yn ddiogel o 11.30am ymlaen ar gyfer yr orymdaith.

Bydd y ffordd ar gau o **11am tan 12.30pm, dydd Sadwrn 2 Medi**. Bydd yn effeithio ar y rhannau o Stryd Clifton o Gold Street a Sapphire Street i lawr i Iron Street a Diamond Street. Gellir mynd i Sapphire Street, Emerald Street, Ruby Street, Topaz Street a Diamond Street trwy'r dydd ar hyd y strydoedd gyferbyn, heb rwystrau i'r croesfannau uchel. Gwelwch y map.

Er mwyn paratoi ar gyfer y diwrnod, byddwn yn cyfyngu'n raddol ar ddefnyddio'r baeau parcio ar hyd y rhannau o Stryd Clifton yr effeithir arnynt, a gofynnwn yn garedig i chi beidio â pharcio yn y baeau parcio yn y cyfnod cyn cau'r ffordd. Bydd modd i chi barcio ar y strydoedd ochr i gyd.

Digwyddiad bychan yng Nghaeau Anderson fydd **Gwledd Parc Feast** gyda bwyd, cerddoriaeth fyw, perfformiadau, a gweithgareddau i ddathlu cymunedau amrywiol Sblot, Adamsdown a Thremorfa sy'n rhan o'n Milltir Sgwâr. Bydd yn ddigwyddiad cynhwysol, amlddiwylliannol, addas i deuluoedd – bydd yn rhad ac am ddim, ac mae croeso i bawb!

Dyma rai o'r partneriaid sy'n cydweithio â ni ar y digwyddiad Cynghorwyr Adamsdown: Owen Jones; Grace Ferguson-Thorne, Ysgol Gynradd Adamsdown, Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd (CCHA), Gweithwyr Creadigol Llawrydd: A-F Maugran; Francis Maxey, Stacey Blythe, Green Squirrel, Llamau, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs), Cymuned NoFit State, Oasis, Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Os hoffech wybod rhagor neu ofyn cwestiynau, cysylltwch â thîm cyfeillgar y Dderbynfa ar **reception@nofitstate.org**, ffôn **02920 221330** neu WhatsApp **07500 970567** neu dewch draw i'n hadeilad ar Four Elms Road, i gael sgwrs wyneb yn wyneb.

Dymuniadau gorau,

Kate Parry, Rheolwr y Rhaglen Gymunedol
Evie Davies, Gweinyddwr y Rhaglen Gymunedol

Jo Taylor,
Rheolwr Prosiectau Cymunedol